- mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i ganlyn arni â'r Cynllun Peilot Cymuned Plant yng Ngorllewin Sandfields a bydd y gwaith hwn o gymorth i gyflawni'r cam.

20 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- ystyried sut y byddai gwella data a dealltwriaeth gyfannol am gymunedau yn gallu:
  - gwella gwybodaeth am achosion sylfaenol;
  - darparu dealltwriaeth well am ddeilliannau gwahanol ymyriadau i helpu'r Cyngor i adeiladu ar arfer llwyddiannus;
  - ei gwneud yn bosibl defnyddio dulliau wedi'u targedu a'u teilwra'n fwy i fynd i'r afael â'r materion; a
  - gwella dealltwriaeth am asedau cymunedol a sut y gellir datblygu'r rhain a'u defnyddio i gefnogi pobl, teuluoedd a chymunedau;
- archwilio'r defnydd o ddadansoddeg data i gefnogi'r gwaith hwn, er enghraifft sefydlu proffiliau ar gyfer teuluoedd lle mae profiadau andwyol yn ystod plentyndod yn fwy tebygol o ddigwydd.

## Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen am ddull integredig i gynyddu i'r eithaf y manteision sy'n deillio o'r cam hwn ac mae'n cefnogi hyn trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

### Yr hyn y chwilion ni amdano

21 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried y canlynol:

- sut y gallai'r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant y Cyngor a blaenoriaethau ehangach; a
- sut y bydd cyflawni'r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

22 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'integreiddio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[4]

### Yr hyn a ganfuom

23 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae cysondeb amlwg rhwng cynllun llesiant y Cyngor ac un y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC);

[4] Gweler Atodiad 1

- mae aliniad uniongyrchol rhwng y cam hwn a'r amcan blynyddoedd cynnar a'r amcan cymunedau diogel a chydnerth yng nghynllun llesiant y BGC;
- mae'r Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam hwn yn integreiddio â mentrau presennol eraill yn y Cyngor, er enghraifft y Cynllun Peilot Cymuned Plant yng Ngorllewin Sandfields; ac
- mae profiadau andwyol yn ystod plentyndod yn fenter genedlaethol, a gychwynnwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae'r agenda gyffredin hon yn helpu i sicrhau integreiddio mwy effeithiol rhwng partneriaid.

24 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- bod y Cyngor yn ystyried sut y mae'n mynd ati ymhellach i wreiddio dull integredig ar draws gwasanaethau i sicrhau bod yr holl staff yn meddwl sut y gall manteision sy'n deillio o'u gwasanaeth gael eu cynyddu i'r eithaf a sut y gall unrhyw wrthdaro posibl gael ei adnabod a'i reoli.

## Mae'r Cyngor yn cydweithio gyda phartneriaid i ddylunio a datblygu'r cam

### Yr hyn y chwilion ni amdano

25 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

26 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[5]

### Yr hyn a ganfuom

27 Canfuom y cryfderau canlynol:

- mae'r Cyngor yn mynd ati'n weithredol i hybu cydweithio wrth ddatblygu ei ddull o gyflawni'r cam cymhleth hwn;
- cafwyd presenoldeb ardderchog gan bartneriaid yn y gweithdy ymgysylltu cyntaf ac ewyllys cryf yn yr ystafell i newid y system bresennol i wella trefniadau gweithio mewn partneriaeth er mwyn cefnogi cymunedau'n well; ac

[5] Gweler Atodiad 1

chymorth wedi'i deilwra, yn cael ei werthuso a'i addasu'n barhaus; i allu 'camu i fyny' a 'chamu i lawr' fel y bo angen lle mae gwasanaethau cymorth yn y cwestiwn.

- mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal sesiwn ymgysylltu gyda rhieni a gofalwyr i rannu'r cynllun gweithredu a chael eu barn arno.
- fe wnaeth canlyniadau o ymgysylltu â rhieni a phlant, fel rhan o sefydlu'r Cynllun Peilot Cymuned Plant, helpu i adnabod dwy brif thema'r rhaglen: parodrwydd ar gyfer addysg ac iechyd meddwl a lles emosiynol.

32 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- er mwyn ymgysylltu mewn modd ystyrlon â chymunedau wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu, mae angen i'r Cyngor ystyried gwahanol ffyrdd y gall hwyluso'r broses o gynnwys y gymuned a meithrin ymddiriedaeth i alluogi'r gwaith i fod yn effeithiol. Enghraifft yw cynnig y Cyngor i weithio gyda chymunedau unigol i ddatblygu naratif wrth ystyried 'sut mae da yn edrych?' o ran parodrwydd ar gyfer yr ysgol.
- wrth gynnwys cymunedau ar y cynllun gweithredu, dylid sicrhau bod amrywiaeth lawn y gymuned yn cael ei chynnwys.

# Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

33 Yn dilyn cwblhau ein gwaith maes fe gyflwynon ni ein canfyddiadau i uwch swyddogion y Cyngor a gwasanaethau Iechyd mewn gweithdy ym mis Chwefror 2019. Yn y gweithdy hwn dechreuodd y Cyngor ystyried ei ymateb i'n canfyddiadau. Mae'r camau gweithredu canlynol yn cynrychioli meddyliau'r Cyngor am y camau gweithredu y gallai eu cymryd mewn ymateb i'r cyfleoedd a adnabuwyd trwy'r gwaith adolygu. Bydd y Cyngor yn ystyried y rhain ymhellach ochr yn ochr â'r camau gweithredu sy'n datblygu gyda phartneriaid i symud y gwaith ar brofiadau andwyol yn ystod plentyndod yn ei flaen a bydd yn amcanu at integreiddio'r ddau gynllun gweithredu sy'n dod i'r amlwg i greu un cynllun gweithredu.

Arddangosyn 2: camau gweithredu'r Cyngor

| Camau gweithredu gan y Cyngor a adnabuwyd yn y gweithdy adrodd yn ôl ar 26 Chwefror 2019 ac a adolygwyd ac a ddiwygiwyd gan y Cyngor ym mis Mehefin 2019 | |
|---|---|
| 1. | Datblygu dull mwy systematig o ddeall cymunedau a ffactorau sy'n gwneud teuluoedd yn agored i niwed, gan gynnwys:<br>• cyflwyno/gwreiddio model arweinyddiaeth newydd sy'n cefnogi dull mwy cydgysylltiedig ar draws gwasanaethau (gan gynnwys nodau ar y cyd) a dealltwriaeth gyffredin; ac<br>• ymgysylltu â chymunedau i ddatblygu naratif o ran parodrwydd ar gyfer yr ysgol. |
| 2. | Y Cyngor i helpu i ysgogi newid sylfaenol mewn arferion gweithio gyda phartneriaid ac archwilio sut i fesur deilliannau – i gyflawni newid cynaliadwy. Gallai hyn gynnwys: rhoi cynnig ar fethodolegau gwahanol, gan gynnwys y defnydd posibl o astudiaethau achos a gwersi o ymarfer mewn ffordd systematig i hwyluso dysgu parhaus a helpu ymarfer proffesiynol i esblygu. |
| 3. | Datblygu dealltwriaeth am asedau cymunedol ar draws y Cyngor a sut y gellid defnyddio/datblygu'r rhain i gefnogi cymunedau. |
| 4. | Cyfranogi yn y rhaglen Gweithredu Cynnar gyda'n Gilydd a gychwynnwyd gan Heddlu De Cymru. Cyflwyno cynllun peilot yng Ngorllewin Sandfields i ganolbwyntio ar brofiadau andwyol yn ystod plentyndod er mwyn ystyried sut y gall asiantaethau gydweithio'n fwy effeithiol i gefnogi cymunedau. |
| 5. | Ystyried addasu modelau gwasanaeth i ailbennu cydbwysedd cyllidebau ac adnoddau tuag at wario ar yr agenda ataliol. |
| 6. | Neilltuo adnoddau TG a pholisi corfforaethol i ddatblygu dadansoddeg data a chudd-wybodaeth. |

34 Byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran rhoi'r camau gweithredu hyn ar waith, ac i ba raddau y maent yn mynd i'r afael â'r materion yr ydym wedi'u hadnabod yn ein canfyddiadau.

